**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD ANFFURFIOL MAI 2020**
14 Mai 2020 Cyfarfod o bell drwy gyswllt fideo

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Huw Orwig, Gruff Williams, Erddyn Davies, Emyr Williams, Dafydd Iwan, Math Williams, Mirain Llwyd Owen, Emyr WIlliams

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Wynn Roberts

## 2. Trefniadau Cyfarfod o Bell

Croesawyd pawb i'r cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo gan y Cadeirydd Geraint Strello.

Ar hyn o bryd defnyddir Zoom fel y cyfrwng fideo. Fodd bynnag, dim ond 40 munud y medrir ei gael am ddim. Gofynnwyd felly i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd er mwyn gweld os yr oeddynt hwythau yn cynnig cymorth i gynghorau cymuned gyfarfod o bell yn ystod cyfnod y COVID-19.

## 3. Y Ganolfan

Adroddodd y Cynghorydd Math Williams ar sefyllfa'r Ganolfan a sut yr oedd yr argyfwng COVID-19 yn effeithio ar weithgareddau a'r sefyllfa ariannol.

Ar hyn o bryd, ac am y dyfodol rhagweladwy, does dim defnyddwyr, ac felly dim incwm, ond mae yna tua £2,500 yn y banc yn dilyn rhodd ariannol o £1,000 gan gwmni Watkin Jones. Hefyd mae yna 2 fis o daliadau yn ddyledus gan y Cylch Meithrin.

Ers mis Mawrth does dim taliadau wedi bod yn cael eu gwneud i'r gofalwr.

Ceir ôl-ddyled yn y cyfrif trydan a nwy ac mae hwn yn cael ei dalu gan swm o £70 y mis.

Fel sydd wedi cael ei nodi o'r blaen, mae angen gwneud gwaith i'r gwteri y tu allan ac i'r drws tân.  Mae'n debyg y bydd angen gofyn i'r Cyngor Cymuned am gyfraniad sylweddol o tua £4,000 tuag at y costau yma. Cafwyd amcanbris o £4,000 i wneud y gwaith angenrheidiol.

Cytunwyd i drafod hyn yng nghyfarfod mis Mehefin, ond y farn gyffredinol oedd efo gwariant cymharol sylweddol, byddai angen gofyn am bris gan o leiaf tri darparwr.

## 4. Materion Eraill

### 4.1 COVID-19 a darpariaeth leol

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennau at y Cynghorydd Peter Garlick i ddiolch iddo yntau a'r gwirfoddolwyr sydd yn ei helpu yn danfon nwyddau o gwmpas i drigolion bregus yn y gymuned.

Gofynnwyd hefyd i'r Clerc ysgrifennu at Age Cymru Gwynedd a Môn yn diolch iddynt am y gwaith y mae hwythau hefyd wedi bod yn ei wneud yn enwedig o ran darparu prydau poeth ar gyfer trigolion lleol sy'n hunan ynysu.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 2 Gorffennaf 2020 am 7 yr hwyr.**
**Cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo.**